

SL(6)019 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2021

Cefndir a diben

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y "cyfnod perthnasol".

Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "cyfnod perthnasol" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru wedi estyn y cyfnod perthnasol fel a ganlyn:

- Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/606 (C. 140)) y "cyfnod perthnasol" o 30 Mehefin 2020 hyd 30 Medi 2020;
- Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/960 (C. 214)) y "cyfnod perthnasol" ymhellach tan 31 Rhagfyr 2020;
- Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/1456 (C. 314)) y "cyfnod perthnasol" ymhellach tan 31 Mawrth 2021; ac
- Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 (O.S. 2021/253 (C. 66)) y "cyfnod perthnasol" ymhellach tan 30 Mehefin 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf ymhellach tan 30 Medi 2021.

Gweithdrefn

Gwneud Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 28 Mehefin 2021.

Yn benodol, nodwn yr hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch estyn y cyfnod perthnasol:

"Mae angen dybryd i sicrhau bod y cyfnod perthnasol yn cael ei estyn ar ôl 30 Mehefin. Rhaid cadw nifer y busnesau sydd o dan fygythiad byw o gael eu troi allan o'u heiddo yn fach, fel cyfraniad at yr amrywiaeth o fesurau sy'n ymateb i effeithiau parhaus y pandemig. Daw'r Rheoliadau hyn felly i rym ar 30 Mehefin 2021 i sicrhau nad oes bwlch yn y warchodaeth i denantiaid. Mae hyn yn golygu na fydd y Rheoliadau'n dilyn y confensiwn na fydd llai na 21 diwrnod o fwlch rhwng gosod y Rheoliadau a'u dyddiad dod i rym. Mae'r penderfyniad i estyn y cyfnod perthnasol wedi'i wneud fel ymateb i sefyllfa sy'n newid beunydd a chan fod ansicrwydd o hyd ynghylch effaith amrywiolion newydd y feirws. Roedd yn hanfodol gwneud y penderfyniad hwn i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i filwrio yn erbyn effeithiau'r pandemig."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

